# Atodiad 3

## Yr Egwyddorion

Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr: dull gweithredu ar gyfer cyfreithwyr cymwys sy'n ceisio cael eu derbyn fel cyfreithiwr yng Nghymru a Lloegr

### Gofynion trosfwaol

1. Bydd angen i gyfreithwyr cymwys sy'n dymuno cael eu derbyn fel cyfreithiwr yng Nghymru a Lloegr:

   a. Meddu ar gymhwyster proffesiynol yr ydym yn ei gydnabod ac sy'n rhoi hawl i ymarfer yng Nghymru a Lloegr, neu mewn awdurdodaeth dramor.
   b. Dangos eu bod yn meddu ar y cymwyseddau a nodir yn y Datganiad Cymhwysedd Cyfreithiwr (SoSC) a'r wybodaeth am gyfraith Cymru a Lloegr a nodir yn y Datganiad Gwybodaeth Gyfreithiol, naill ai ar sail yr egwyddorion a nodir isod a/neu drwy lwyddo yn yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr (SQE).
   c. Meddu ar radd, neu gymwysterau neu brofiad yr ydym yn fodlon eu bod yn cyfateb i radd.
   d. Bodloni ein gofynion o ran cymeriad ac addasrwydd.

2. Byddwn yn cydnabod y wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau mae cyfreithwyr cymwys wedi'u hennill drwy gymwysterau proffesiynol a phrofiad proffesiynol.[1] Gallai'r gydnabyddiaeth hon ymwneud ag SQE1 a/neu SQE2 yn eu cyfanrwydd, neu gydrannau unigol[2] sy'n rhan o SQE1 a/neu SQE2.

   Byddwn yn cydnabod bod cymwysterau cyfreithiol proffesiynol neu brofiad proffesiynol yn cyfateb i gydran unigol o'r SQE dim ond os yw'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau y mae cyfreithiwr cymwys yn ceisio cydnabyddiaeth ar eu cyfer yn cyfateb i gydran unigol gyfan. Ni fydd cydnabyddiaeth ar gael ar gyfer rhan o gydran unigol, oherwydd nid yw'n bosibl asesu'r holl ymgeiswyr ar sail ddibynadwy a chywir os yw rhai ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar rai agweddau ar gydran yn unig.

### Cydnabod cymwysterau proffesiynol

3. Er mwyn i ni gydnabod bod cymhwyster proffesiynol cyfreithiwr cymwys yn cyfateb i ran o'r SQE neu'r SQE yn ei gyfanrwydd (SQE1 a/neu SQE2), bydd rhaid i'r cyfreithiwr ddangos bod y cymhwyster y mae'n meddu arno'n cyfateb i SQE1 a/neu SQE2 yn ei gyfanrwydd, neu i gydrannau unigol o'r SQE yn y ffyrdd canlynol:

   - Cynnwys: rhaid i'r cymhwyster proffesiynol ddelio â chynnwys nad yw'n sylweddol wahanol i'r meysydd o gyfraith Cymru a Lloegr a nodir yn y Datganiad Gwybodaeth Gyfreithiol, a'r cymwyseddau a nodir yn y Datganiad Cymhwysedd Cyfreithiwr.

   - Safon: rhaid i'r cymhwyster proffesiynol fod o safon gyfatebol - hy rhaid iddo asesu hyd lefel sy'n gymaradwy â lefel tri safon trothwy'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr.

[1] Bydd cydnabyddiaeth o ran o'r SQE neu'r SQE yn ei gyfanrwydd yn cael ei rhoi i ymgeiswyr sy'n meddu ar deitl proffesiynol cyfreithiol yr ydym yn ei gydnabod (cymhwyster proffesiynol). Pan roddir cydnabyddiaeth, ni fydd yn rhaid i'r cyfreithiwr cymwys eistedd cydrannau cyfatebol yr asesiad(au) SQE.

[2] Ystyr "cydran" o'r SQE yw elfen o'r SQE a asesir yn unigol. Gosodir safon ar wahân ar ei chyfer, a darperir marc ar ei chyfer.

**Cydnabod profiad proffesiynol**

4. Os yw cyfreithwyr cymwys wedi ennill profiad proffesiynol o ymarfer cyfreithiol[3] drwy ymarfer o dan eu teitl cartref a/neu yn eu hawdurdodaeth gartref, byddwn yn ystyried a yw'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau a enillwyd drwy brofiad proffesiynol hwn yn cyfateb i'r rhannau cyfatebol o SQE1 a/neu SQE2. Er mwyn i ni gydnabod gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau cyfreithiwr cymwys a enillwyd drwy brofiad proffesiynol, bydd angen iddynt ddangos bod y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad a enillwyd yn cyfateb i'r SQE yn ei gyfanrwydd neu i gydrannau unigol o'r SQE yn y ffyrdd canlynol:

- Cynnwys: rhaid i'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau a enillwyd drwy'r profiad proffesiynol ddelio â chynnwys nad yw'n sylweddol wahanol i'r meysydd o gyfraith Cymru a Lloegr a nodir yn y Datganiad Gwybodaeth Gyfreithiol, a'r cymwyseddau a nodir yn y Datganiad Cymhwysedd Cyfreithiwr.

- Safon: rhaid i'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau a enillwyd drwy'r profiad proffesiynol fod wedi'u datblygu hyd lefel sy'n gymaradwy â lefel tri safon trothwy'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr.

5. Fel man cychwyn, rydym yn rhag-weld y bydd gan gyfreithwyr cymwys o leiaf ddwy flynedd o brofiad proffesiynol er mwyn dangos i ni eu bod wedi datblygu, yn foddhaol ac i safon gyfatebol, y cymwyseddau a asesir gan y rhan(nau) o'r SQE y maen nhw'n ceisio cydnabyddiaeth ar eu cyfer.

   Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai ymgeiswyr yn gallu dangos i'n boddhad eu bod wedi datblygu'r cymwyseddau dan sylw i safon gyfatebol mewn cyfnod byrrach o brofiad proffesiynol, neu drwy ddysgu gydol oes (neu gyfuniad o'r ddau).[4] Maen nhw'n dal yn gallu gwneud cais i ni am gydnabyddiaeth drwy gyflwyno tystiolaeth ffurfiol, a byddwn yn adolygu'r dystiolaeth i asesu a yw eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cymwyseddau'n bodloni ein gofynion o ran cynnwys a safon.

**Cymraeg neu Saesneg**

**6.** Lle bo angen,[5] bydd gofyniad iaith Cymraeg neu Saesneg yn cael ei osod ar gyfer cyfreithwyr cymwys lle rydym wedi cydnabod bod eu cymhwyster/cymwysterau proffesiynol neu eu profiad proffesiynol yn cyfateb i'r SQE2 yn ei gyfanrwydd neu i ran ohono. Bydd hyn yn digwydd ar ôl derbyn ar y pwynt pan fydd ymgeiswyr yn gwneud cais am y dystysgrif ymarfer gyntaf.

---

[3] Gellir ystyried cyfnodau o brofiad proffesiynol o ymarfer cyfreithiol naill ai cyn neu ar ôl cymhwyso.

[4] ‘dysgu gydol oes’: yr holl addysg gyffredinol, addysg a hyfforddiant galwedigaethol, ac addysg anffurfiol a gyflawnir drwy gydol bywyd, gan arwain at gynnydd mewn gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau, a allai gynnwys moeseg broffesiynol.

[5] mewn achosion o "amheuaeth ddifrifol a phendant" ynghylch gwybodaeth iaith yr ymgeisydd mewn cysylltiad â'r gweithgareddau proffesiynol mae'n bwriadu eu cyflawni yn unol â Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015.

## Nodiadau am yr egwyddorion

### Cyrff rheoleiddio/proffesiynol

7. Caiff corff rheoleiddio/proffesiynol wneud cais i ni ar gyfer cydnabod teitl proffesiynol.

8. Byddwn yn parhau i gydnabod galwedigaethau yr ydym wedi'u cydnabod o'r blaen. Fodd bynnag, os bydd corff rheoleiddio/proffesiynol yn gwneud cais am gydnabyddiaeth o'r SQE1 a/neu SQE2 yn ei gyfanrwydd neu gydrannau unigol o'r SQE ar gyfer eu galwedigaeth, bydd rhaid i'r corff gyflawni ymarfer mapio a chyflwyno tystiolaeth i ni yn dangos sut mae cymhwyster proffesiynol eu haelodau'n cyfateb i'r SQE.

9. Byddwn yn adolygu'r ymarfer mapio y mae'r corff rheoleiddio/proffesiynol wedi'i gyflawni ac yn cydnabod bod cymwysterau proffesiynol corff rheoleiddio/proffesiynol yn cyfateb i'r SQE neu i gydrannau unigol ohono, os ydym wedi asesu nad yw cynnwys a safon y cynllun cymwysterau'n sylweddol wahanol i'r rhannau cyfatebol o'r SQE. Byddwn yn edrych ar gynnwys a safon cynllun cymwysterau'r alwedigaeth yn unig,[6] ac a yw'r gydnabyddiaeth y gofynnir amdani'n ymwneud â chydran unigol yn ei chyfanrwydd a/neu SQE1 a/neu SQE2 yn eu cyfanrwydd.

### Unigolion

10. Rhaid i gyfreithwyr cymwys sy'n ceisio cael eu derbyn gysylltu â ni a dangos sut mae eu cymhwyster proffesiynol neu eu profiad proffesiynol yn cyfateb i'r SQE, neu i ran ohono, ar sail naill ai'r meysydd cydnabyddiaeth y cytunir arnynt rhyngom ni a'u corff rheoleiddio/proffesiynol, a/neu eu hamgylchiadau unigol. I wneud hyn, bydd angen iddynt gyflwyno tystiolaeth ffurfiol, gan gynnwys esboniad o sut mae eu profiad proffesiynol wedi'u galluogi i ddatblygu'r cymwyseddau y maen nhw'n ceisio cydnabyddiaeth ar eu cyfer.[7]

11. Caiff cyfreithwyr cymwys wneud cais i ni ar gyfer cydnabod teitl proffesiynol sydd ganddynt ac sy'n rhoi hawliau ymarfer yng Nghymru a Lloegr neu mewn awdurdodaeth dramor nad yw wedi cael ei chydnabod gennym o'r blaen, ac nad yw wedi bod yn destun cais i ni gan y corff rheoleiddio/proffesiynol. Os nad yw'r cymhwyster wedi cael ei gydnabod yn barod, bydd angen darparu gwybodaeth ddigonol i'w gwneud hi'n bosibl cyflawni'r ymarfer mapio y cyfeirir ato ym mharagraffau 8 a 9 uchod.

12. O ran cyfreithwyr cymwys o Aelod-wladwriaethau'r UE ar wahân i'r DU, mae ganddynt ddewis ceisio cael eu derbyn ar sail Cyfarwyddeb 2005/36/CE neu Gyfarwyddeb 98/5/CE. Fel rheol, bydd ymgeiswyr sy'n ceisio sefydlu ar sail Cyfarwyddeb 98/5/CE yn gorfod cyflawni gweithgaredd a ddaw o dan gyfraith Cymru a Lloegr yn effeithiol ac yn rheolaidd yng Nghymru a Lloegr o dan eu teitl proffesiynol cartref am gyfnod o dair blynedd o leiaf.

---

[6] hy - ni fyddwn yn edrych ar nodweddion fel y fethodoleg asesu neu fformat yr asesiad.

[7] Yn ymarferol, gellid gwneud hyn naill ai drwy gadarnhau i ni eu bod yn aelod o alwedigaeth sydd â meysydd cydnabyddiaeth y cytunwyd arnynt ymlaen llaw (ar sail llwybr cymhwyso safonol yr alwedigaeth), a/neu drwy gyflwyno tystiolaeth i gefnogi cyfnodau 'llai nodweddiadol' o brofiad proffesiynol.